

Y Pwyllgor Materion Allanol a
Deddfwriaeth Ychwanegol

Ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol – beth nesaf i Gymru?

Mehafin 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **SeneddMADY@cynulliad.cymru**

Twitter: **[@SeneddMADY](https://twitter.com/SeneddMADY)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Materion Allanol a
Deddfwriaeth Ychwanegol

Ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol – beth nesaf i Gymru?

Mehefin 2017



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ar 15 Medi 2016 cytunwyd ar ei gylch gwaith fel a ganlyn:

(a) archwilio'r goblygiadau i Gymru oherwydd i'r Deyrnas Unedig benderfynu gadael yr Undeb Ewropeaidd a sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu diogelu yn ystod y broses adael, mewn unrhyw berthynas newydd â'r UE ac yn nhrefniadau gwledydd y DU ar ôl gadael ar gyfer materion perthnasol o ran polisi, cyllid a deddfwriaeth;

(b) cydlynu gweithgarwch ar draws pwyllgorau'r Cynulliad mewn perthynas â phwynt (a) uchod;

(c) cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.8 i 21.11, gyda newid canlyniadol i gylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol;

(d) ystyried unrhyw fater arall, gan gynnwys deddfwriaeth, a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



David Rees AC (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Aberafan



Dawn Bowden AC
Llafur Cymru
Merthyr Tudful a Rhymni



Michelle Brown AC
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



Suzy Davies AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Mark Isherwood AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Steffan Lewis AC
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Jeremy Miles AC
Llafur Cymru
Castell-nedd



Eluned Morgan AC
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
01. Cyflwyniad.....	9
02. Cyllid presennol.....	10
03. Dyfodol polisi rhanbarthol	14
04. Egwyddorion ar gyfer polisi yn y dyfodol.....	21
05. Strwythurau ar gyfer cyflawni polisi rhanbarthol yn y dyfodol	28
06. Dulliau yn y dyfodol – ymchwil ac arloesi, cydweithio, seilwaith a chysylltedd	32
Atodiad A – Tystion.....	37

Rhagair y Cadeirydd

Yn dilyn y penderfyniad drwy refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd, daeth cwestiynau ynghylch darparu cyllid yn lle bron £2 biliwn y mae Cymru'n ei gael drwy bolisi rhanbarthol yr UE yn ystyriaeth allweddol. Beth fyddai'n digwydd yn y tymor byr? Beth, os unrhyw beth, y dylid ei ddarparu yn ei le? Yn gryno, beth nesaf i Gymru?

Aethom ati i ystyried y cwestiynau hyn ac mae ein hadroddiad yn nodi rhai o'r materion rydym yn eu hwynebu yn y tymor byr, ynghyd ag atebion posibl o ran yr hyn a ddylai ddigwydd yn y tymor hir.

Mae angen i Lywodraeth Cymru fynegi gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol sy'n ymgorffori llesiant ochr yn ochr â'r pwyslais traddodiadol ar ddangosyddion economaidd. Dylai'r gwaith cynllunio hwn fod wedi dechrau eisoes.

Mae ein hadroddiad yn tynnu sylw at rai o'r egwyddorion polisi at y dyfodol a bydd angen i Lywodraeth Cymru benderfynu ar y strwythurau gorau ar gyfer cyflwyno polisi rhanbarthol at y dyfodol, gan edrych allan at y byd i ganfod yr arferion rhyngwladol gorau.

Un o'r negeseuon a gafwyd yn rheolaidd yn ystod ein hymchwiliad oedd galwad am fwy o'r un peth. Roeddem yn siomedig o glywed y fath ddiffyg dychymyg, creadigrwydd ac uchelgais. Rydym yn bendant o'r farn mai ein tynged fydd ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol os na allwn ddysgu ohonynt.

Mae'n rhaid cydio yn y cyfleoedd a ddaw o adael yr Undeb Ewropeaidd i adnewyddu polisi rhanbarthol yng Nghymru mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anghyfartalwch o ran perfformiad economaidd. Nid yw parhau fel yr oeddem yn opsiwn, ac mae angen i bawb – Llywodraeth Cymru, y sector preifat, ein prifysgolion a'r trydydd sector – ddechrau meddwl am ffyrdd newydd o fynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd rydym yn eu hwynebu fel gwlad. Mae'n alwad i weithredu na ddylai unrhyw un yng Nghymru ei hosgoi.

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol

Argymhellion

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa gamau y bydd yn cymryd i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau posibl mewn arian cyfred yn y dyfodol. Tudalen 12

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y bydd cau rhaglenni yn digwydd ar ôl gadael yr UE, a ph'un a fydd y rhaglenni hynny yn ddarostyngedig i gyfraith yr UE a'i bod yn codi'r cwestiynau hyn gyda chymheiriaid y DU i sicrhau yr ymdrinnir â'r rhain yn ddigonol fel rhan o unrhyw gytundeb i adael..... Tudalen 13

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am hynt y materion hyn i'n galluogi i asesu'r cyfeiriad a gynigir ar gyfer datblygu dulliau yn y dyfodol i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn perfformiad economaidd yng Nghymru..... Tudalen 15

Argymhelliad 4. Rydym yn pryderu y gallai un addasiad i'r Grant Bloc, er ei fod yn dderbyniol yn y byrdymor, beri risgiau yn y tymor hwy ac felly argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod arian wedi'i brofi ar gyfer y dyfodol ac yn edrych ar rinweddau fformiwla gwrthrychol sy'n seiliedig ar anghenion, fel y cytunwyd gan bob gwlad yn y DU..... Tudalen 18

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU o ran:

- yr angen i Lywodraeth y DU gyflwyno cynigion ar gyfer strwythur rhynglywodraethol ffurfiol i gytuno ar ddyraniadau cyllido a datrys gwrthdaro sy'n debyg i 'Gyngor y Gweinidogion' y DU; ac
- yr angen am eglurder gan Lywodraeth y DU o ran p'un a yw eu safbwyntiau ar statws cyfreithiol y pwerau ar gyfer polisi rhanbarthol yn cyd-fynd â Llywodraeth Cymru. Tudalen 19

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phob partner perthnasol i fynegi gweledigaeth glir a phwrpas y polisi rhanbarthol yn y dyfodol sy'n gwneud y gorau o'r cyfle i feddwl o'r newydd ac sy'n ystyried y manteision ac anfanteision wrth lunio strategaeth ddiwydiannol newydd i Gymru ar ôl gadael yr UE. Tudalen 21

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylai unrhyw bolisi yn y dyfodol geisio mesur effaith gan ddefnyddio ystod ehangach o ddangosyddion yn hytrach na dangosyddion economaidd yn unig. Tudalen 23

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad sut y bydd yn sicrhau gwell symleiddio a hyblygrwydd yn y rheolau sy'n llywodraethu polisi rhanbarthol ar ôl i'r DU adael yr UE. Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ar ba agweddau y byddai'n ceisio eu cadw o'r weithdrefn bresennol. Tudalen 24

Argymhelliad 9. Er mwyn llywio gwaith cynllunio a chyflwyno polisi rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru: Tudalen

- gomisiynu gwaith ymchwil arbenigol ar effeithiolrwydd ei bolisiau presennol a chyflwyno cynigion ar gyfer polisiau newydd yn seiliedig ar arfer gorau o bob rhan o'r byd;
- nodi yn ei hymateb i'n hadroddiad sut y bydd yn sicrhau bod pob swyddog perthnasol yn dysgu o arfer gorau rhyngwladol; Tudalen 26

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r amserlenni a ragwelir ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn ei hymateb i'r adroddiad. Tudalen 27

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso a oes dulliau mwy cadarn ar gyfer casglu a dadansoddi data er mwyn dylunio a gwerthuso polisi rhanbarthol yn y dyfodol a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag arbenigwyr rhyngwladol, fel yr OECD, er mwyn gwneud hyn. Tudalen 27

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut bydd yn sicrhau bod strwythurau rhanbarthol newydd yng Nghymru yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Ar ben hynny, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ardaloedd gwledig yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn cael eu cyfrif yn briodol wrth gynllunio a chyflwyno polisi rhanbarthol yn y dyfodol. Tudalen 30

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa newidiadau strwythurol allai fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i sicrhau bod y strwythurau sydd ar waith i gyflawni polisi rhanbarthol yn addas at y diben ar ôl i'r DU adael yr UE. Tudalen 30

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadw goruchwyliaeth ac yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer polisi rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru tra'n sicrhau bod polisi yn y dyfodol yn ymatebol i anghenion lleol a bod y cyfrifoldeb dros gyflwyno wedi'i amlinellu'n glir..... Tudalen 31

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pennu sut mae'n bwriadu, yn ogystal â'r strategaethau sydd eisoes ar waith, gweithio gyda'r sector preifat i hybu gwariant ar ymchwil a datblygu yng Nghymru i sicrhau bod enillion arloesedd a chynhyrchiant yn ganolog i bolisi datblygu rhanbarthol ac economaidd yn y dyfodol. Tudalen 33

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad sut y bydd yn datblygu strategaeth arloesi ac ymgysylltu yng Nghymru ar ôl i'r DU adael yr UE. Tudalen 34

Argymhelliad 16. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, i nodi'r canlyniad a ffefrir ganddi ar gyfer rheolau cymorth gwladwriaethol a chaffael ar ôl i'r DU adael yr UE..... Tudalen 36

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell y dylai polisi rhanbarthol yn y dyfodol gynnwys:

- cefnogaeth barhaus ar gyfer addysg, sgiliau a chyfalaf dynol;
- cefnogaeth barhaus ar gyfer buddsoddiad mewn seilwaith ffisegol a digidol;
- gwell cydweithio rhwng awdurdodau lleol; addysg bellach ac uwch; byrddau iechyd lleol; y sector preifat a'r trydydd sector;
- ymgysylltiad parhaus â'r sector parhaus lle y bo'n bosibl; a
- dull mwy strategol o wneud y gorau o botensial caffael wrth ysgogi datblygiad economaidd. Tudalen 36

01. Cyflwyniad

2. Pwrpas polisi rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd yw helpu gyda chreu swyddi, cystadleurwydd busnes, twf economaidd, datblygu cynaliadwy a gwella ansawdd bywyd dinasyddion Ewrop.¹ Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, cafodd cyfanswm o €351.8 biliwn – bron i draean o gyfanswm cyllideb yr UE – ei neilltuo at y diben hwn yn 2014-2020. Mae Cymru wedi cymhwyso ar gyfer y lefel uchaf o gymorth ariannol a gynigir gan yr Undeb Ewropeaidd ym mhob cylch cyllido ers 2000.

3. Gan y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n debygol y bydd Cymru yn wynebu dyfodol heb fynediad at yr arian hwn. Mewn gwaith a wnaed gennym yn flaenorol, edrychwyd ar y **goblygiadau i Gymru wrth i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd**. Daeth yn amlwg bod angen i ni edrych yn fanylach ar y goblygiadau yn sgil gadael yr UE i bolisi rhanbarthol a hefyd edrych i'r dyfodol – ble nesaf i Gymru?

4. Roedd ein hymchwiliad yn bwriadu edrych ar dri pheth:

- statws y rhaglenni presennol (gan gynnwys lefelau ymrwymiad a chwestiynau ynghylch cau rhaglenni);
- dyfodol polisi rhanbarthol yng Nghymru (yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd); ac
- arferion gorau mewn mannau eraill yn y byd, gan gynnwys modelau eraill a ddefnyddir i leihau gwahaniaethau rhanbarthol mewn perfformiad economaidd.


5. Cynhaliwyd 11 sesiwn dystiolaeth lafar gyda busnesau, elusennau, addysg uwch, llywodraeth leol ac eraill a daeth sawl cyflwyniad ysgrifenedig i law. Mae crynodeb o'r broses casglu dystiolaeth i'w weld yn Atodiad A.

¹ Y Comisiwn Ewropeaidd, 'European structural and investment funds' – Mawrth 2017

02. Cyllid presennol

Gwarant y Canghellor

6. Er nad yw'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi cael yr effaith drawsnewidiol y gobeithiwyd amdani yn wreiddiol, mae'r symiau o arian sy'n gysylltiedig â'r cylchoedd cyllido presennol a blaenorol yn sylweddol.² Yn ystod y cylch cyllido presennol, dyrannwyd cyfanswm o £2 biliwn i Gymru mewn arian strwythurol, y bydd £1.6 biliwn ohono yn mynd i Orllewin Cymru a'r Cymoedd a thros £325 miliwn i Ddwyrain Cymru.³ Ar sail y pen, mae lefel y cymorth y disgwylir i Gymru ei gael yn sylweddol uwch nag unrhyw wlad neu ranbarth arall yn y DU. Yn ôl ffigurau gan Sefydliad Ymchwil Economi Gwleidyddol Sheffield, mae dyraniad cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) y pen i Gymru yn 458 y cant o gyfartaledd y DU. Mewn cymhariaeth, yr ardal sy'n derbyn y mwyaf o arian ar ôl hynny yw Gogledd Iwerddon a gyfrifir yn 197 y cant o gyfartaledd y pen y DU.⁴



Ffynhonnell: Sefydliad Ymchwil Economi Gwleidyddol Sheffield

7. Mae Cymru hefyd yn cael cymorth drwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) sy'n ariannu Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru.⁵ Yn ystod y cylch cyllido presennol, y cyfanswm gwariant y flwyddyn ar y Cynllun Datblygu Gwledig yw £80 miliwn.⁶ Mae'r swm yn cynnwys trosglwyddiadau o Golofn Un y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ac mae'n cynnwys

² IOB 47 Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd, Dr Jayne Woolford;

³ Llywodraeth Cymru, *Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020* – 16 Mai 2017

⁴ Sefydliad Ymchwil Economi Gwleidyddol Sheffield, 'UK regions and European structural and investment funds' – Mai 2016

⁵ Llywodraeth Cymru, 'Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020' – 17 Mai 2015

⁶ Papur 1 – Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar Bolisi Rhanbarthol yng Nghymru

buddsoddiadau economaidd-gymdeithasol a buddsoddiadau amgylcheddol mewn rheoli tir a bioamrywiaeth.

8. Yn dilyn penderfyniad y refferendwm, gwnaethom nodi statws y rhaglenni presennol a'r rhagolwg ar gyfer cyllid yn y fframwaith ariannol amlflwydd cyfredol (a fydd yn rhedeg o 2014 – 2020) fel pryder uniongyrchol i bolisi rhanbarthol yng Nghymru. Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU warant cyllid ar gyfer prosiectau hyd at yr adeg y bydd y DU yn gadael yr UE.⁷ Mae'r warant yn cwmpasu cyllid yr EU ar gyfer prosiectau cyllid strwythurol a buddsoddi, gan gynnwys y rhai y cytunwyd arnynt ar lefel ddatganoledig.

9. Roedd pawb a roddodd tystiolaeth i'n hymchwiliad yn croesawu gwarant y Canghellor ac yn croesawu'r sicrwydd a ddarparwyd ganddo. Fodd bynnag, clywsom gan rai tystion a rybuddiodd, hyd yn oed gyda'r warant cyllid, fod ansicrwydd yn cael effaith ar brosiectau ar lawr gwlad. Dywedodd Phil Fiander o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru:

“There is still an awful lot of uncertainty, a lot of potential apathy to the current programme as well—because they don’t necessarily want to get too involved, because they’re afraid of the risks, even though the Treasury have issued a guarantee. There is still an apathy there that, ‘Actually, we don’t want to get involved at this present moment until we know what the future holds.’”⁸

10. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC, hefyd yn croesawu gwarant cyllid y Canghellor.⁹ Yn ei bapur, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod “canlyniad y trafodaethau ar ôl sbarduno Erthygl 50 yn golygu bod cyflawni'r rhaglenni yn arbennig o heriol” ond bod y rhain yn cael eu rheoli “drwy weithio'n agos â Llywodraeth y DU”.¹⁰ Ymhelaethodd Ysgrifennydd y Cabinet ar effaith yr ansicrwydd hwn mewn tystiolaeth lafar:

“The people who started off on this round of European funding—the 2014 to 2020 round—started off with a rulebook that they knew they could rely on, they knew how the system would work, they knew when the end point would come, and they knew how funding would flow. And particularly when you’re working with a wide range of partners—local authorities, universities, third sector and private sector partners and so on—investor confidence and the willingness to come forward with proposals and to be able to plan ahead are very important. So, no matter how well managed the next couple of years will be, the fact of uncertainty is bound to be having an impact on the way in which those partners approach their use of European funding.”¹¹

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 1. Rydym yn croesawu gwarant y Canghellor o gyllid cyfatebol yr UE hyd at 2020. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law, rydym yn fodlon bod nifer o'r risgiau

⁷ Trysorlys EM, “[Further certainty on EU funding for hundreds of British projects](#)” – 3 Hydref 2016

⁸ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cofnod y Trafodion, [paragraff 132](#) – 6 Mawrth 2017

⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 14](#) – 20 Mawrth 2016

¹⁰ [Papur 1 – Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar Bolisi Rhanbarthol yng Nghymru](#)

¹¹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 7](#) – 20 Mawrth 2016

uniongyrchol i ariannu polisi rhanbarthol yng Nghymru wedi'u lliniaru gan y warant hon, a chan gamau gan Lywodraeth Cymru i ddyrannu cyllid.

Dyrannu cyllid

11. Dywedodd nifer o dystion wrthym am y ffyrdd gwahanol y caiff eu sectorau gefnogaeth gan gronfeydd strwythurol yn ystod y cylch presennol. Pwysleisiodd cynrychiolwyr o Brifysgolion Cymru a Cholegau Cymru rôl cronfeydd strwythurol yr UE o ran cefnogi dysgu yn y gwaith ac i bontio'r diffyg mewn cyllid cyfalaf ers yr argyfwng ariannol.¹²

12. Yn ei dystiolaeth, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Cymru wedi ymrwymo 68 y cant o'r holl gyllid ar gyfer y cylch ariannu cyfredol erbyn diwedd 2016. Mae hyn yn cyferbynnu â chyfartaledd Ewrop o 27 y cant.¹³ Esboniodd hefyd y gallai newidiadau mewn arian cyfred gael effaith ar gyfanswm gwerth cronfeydd strwythurol yr UE sy'n dod i Gymru. Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet:

“There is a vulnerability for us in relation to the parity of the pound sterling to the euro. So, we're probably £150 million [correction: £130 million] or so better off in sterling terms than we were when the referendum was called on 23 June. Obviously, if the pound were to sink further, we end up with more pounds to spend here and that becomes a challenge towards the end of the period.”¹⁴

13. O ran dyrannu a chymeradwyo cyllid, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn i ddyrannu 80 y cant erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Dywedodd wrthym:

“We are trying to accelerate the rate at which we approve projects that are already in the pipeline, while remaining clear that one thing we will not do to accelerate progress is to lower the quality threshold. I will not be willing to approve any project that does not demonstrate that it can make the impact that we need it to make. But we are confident that there are projects in the pipeline that will make that difference and we want to push them ahead.”¹⁵

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 2. Clywsom dystiolaeth anecdotaidd fod ansicrwydd yn sgil Brexit yn cael effaith ymddygiadol ar rai sy'n gwneud cais am brosiectau cronfeydd strwythurol a rhai sy'n eu darparu.

Casgliad 3. Rydym yn cydnabod y gallai newidiadau mewn arian cyfred fod yn her i Lywodraeth Cymru wrth geisio defnyddio holl gronfeydd strwythurol yr UE sydd ar gael i Gymru.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad hwn pa gamau y bydd yn cymryd i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau posibl mewn arian cyfred yn y dyfodol.

¹² Cofnod y Trafodion, [paragraffau 7-13](#) – 13 Mawrth 2016

¹³ Cofnod y Trafodion, [paragraff 14](#) – 20 Mawrth 2016

¹⁴ Cofnod y Trafodion, [paragraff 15](#) – 20 Mawrth 2016

¹⁵ Cofnod y Trafodion, [paragraff 17](#) – 20 Mawrth 2016

Cau rhaglenni ar ôl gadael yr UE

14. Roedd cyflwyniad Dr Jayne Woolford i ni fel rhan o'n gwaith cychwynnol ar oblygiadau gadael yr UE i Gymru yn amlgu nifer o bryderon yn ymwneud â'r graddau y bydd gweithdrefnau rheoleiddio sefydledig o amgylch N+3 a chau rhaglenni yn gymwys ar ôl i'r DU adael yr UE. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys:

- Byddai cau rhaglenni yng nghyd-destun gadael yr UE yn fwy cymhleth yn sgil gofynion archwilio sy'n parhau y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod rhaglennu (ac felly dyddiad y bydd y DU yn gadael yr UE);
- Mae'r gofynion cyfreithiol o dan reoliadau'r Gronfa Strwythurol a'r Gronfa Fuddsoddi Ewropeaidd yn awgrymu, o fewn cyd-destun gweithredu rhaglen, y bydd y DU yn ddarostyngedig i bob agwedd berthnasol ar gyfraith yr UE am gyfnod o dair blynedd o leiaf ar ôl gadael.

15. Mewn ateb i gwestiwn am gau rhaglenni, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod Llywodraeth Cymru yn achub ar bob cyfle i nodi'r materion hyn gyda Llywodraeth y DU drwy'r Cydbwyllgor Gweinidogion ar Drafodaethau Ewropeaidd a chyfarfodydd dwyochrog gyda chymheiriaid.¹⁶

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 4. Clywsom y gallai fod yn rhaid i brosiectau a ariennir gan yr UE yng Nghymru gadw at ofynion rheolau archwilio yr UE a chyfraith Ewrop ar ôl gadael yr UE.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y bydd cau rhaglenni yn digwydd ar ôl gadael yr UE, a ph'un a fydd y rhaglenni hynny yn ddarostyngedig i gyfraith yr UE a'i bod yn codi'r cwestiynau hyn gyda chymheiriaid y DU i sicrhau yr ymdrinnir â'r rhain yn ddigonol fel rhan o unrhyw gytundeb i adael.

¹⁶ Cofnod y Trafodion, [paragraff 10](#) – 20 Mawrth 2016

03. Dyfodol polisi rhanbarthol


Yr achos dros ddyfodol polisi rhanbarthol

16. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn dyrannu cyllid tybiannol ar gyfer rhanbarthau o fewn y 28 aelod-wladwriaeth sydd wedi'u categorio yn ôl eu Cynnyrch Mewn-wladol Crynswth (GDP) y pen naill fel 'llai datblygedig', 'trosiannol' neu 'mwy datblygedig'. Mae'r swm mwyaf o gyllid strwythurol yn mynd tuag at ranbarthau 'llai datblygedig' sydd â GDP y pen o lai na 75 y cant o gyfartaledd yr UE. Mae'r statws hwn yn berthnasol i ddwy ranbarth yn y DU: Cernyw ac Ynysoedd Scilly, a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi cymhwyso ar gyfer y lefel hon o gymorth yn ystod cychoedd ariannu 2000-06, 2007-13 a 2014-2020.

17. Yn 2015, roedd ffigurau gan Eurostat yn dangos mai cyfanswm GDP y pen¹⁷ i Gymru oedd 21,900 neu 76 y cant o'r gyfartaledd ar gyfer yr UE yn ei chyfanrwydd.¹⁸ Y dadansoddiad o fewn Cymru ar gyfer GDP y pen oedd:

- Dwyrain Cymru: 26,000 neu 90 y cant o gyfartaledd yr UE; a
- Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: 21,900 neu 68 y cant o gyfartaledd yr UE.

18. Mae hefyd yn wir, o ran GDP y pen, fod y gwahaniaeth rhwng ardal gyfoethocaf y DU ac ardal dlotaf y DU yn fwy nag unrhyw aelod-wladwriaeth arall yr UE. Dangosir hyn isod.



19. Nododd nifer o dystion i'n hymchwiliad fod anghydraddoldeb o fewn y Deyrnas Unedig o ran perfformiad economaidd. Dywedodd yr Athro Sascha Becker o Brifysgol Warwick:

“one thing to note is that the UK is, in a regional perspective, the most unequal country of the EU. It’s more unequal than Italy, for instance. People would always think that the north and the south of Italy are a crazy world apart, but,

¹⁷ Sylwer: Mae'r holl ffigurau GDP y pen wedi'u nodi yn nhermau Safon Pŵer Pwrcasu ("PPS")

¹⁸ Eurostat, "2015 GDP per capita in 276 EU regions" – 30 Mawrth 2017

ultimately, the UK with Cornwall as the lowest per capita income part of the country and London, it's factor four in terms of GDP per capita and it has been like that for, roughly, 40 years.”¹⁹

20. Gwnaeth Iestyn Davies o Golegau Cymru sylwadau tebyg am yr angen am bolisi rhanbarthol newydd er budd holl wledydd a rhanbarthau'r DU ar ôl gadael yr UE. Dywedodd Mr Davies:

“[...] I think we would all hopefully agree that some form of regional assistance, albeit from the Treasury as opposed to from the European Commission, needs to happen not simply because we are indulging in some sort of special pleading on Wales's behalf, but because the UK as a whole remains a very divided and very different country depending on where you sit. [...]”²⁰

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 5. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru sicrhau bod safbwyntiau a buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli a'u dadlau mewn cyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Byddem yn croesawu sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod yr achos a wnaed yn yr adroddiad hwn wedi'i nodi yn y ddau Gydbwyllgor Gweinidogion (gan gynnwys y Cydbwyllgor Gweinidogion ar Drafodaethau Ewropeaidd) ac mewn cyfarfodydd dwyochrog rhwng y ddwy lywodraeth, ar lefel Gweinidogion ac ar lefel swyddogion.

Casgliad 6. Cytunwn fod yr achos dros bolisi rhanbarthol newydd sydd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau sylweddol mewn cyfoeth a pherfformiad economaidd rhwng rhanbarthau Cymru yn ddigamsyniol.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am hynt y materion hyn i'n galluogi i asesu'r cyfeiriad a gynigir ar gyfer datblygu dulliau yn y dyfodol i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn perfformiad economaidd yng Nghymru.

Effaith cyllid blaenorol

21. Er nad oeddem yn bwriadu adolygu effeithiolrwydd gwariant blaenorol, fe gododd effaith cronfeydd strwythurol yr UE yn ystod ein hymchwiliad. Yng nghyd-destun ei waith ymchwil ledled yr UE (yn hytrach nag yn benodol i Gymru), dywedodd yr Athro Becker:

“So, overall, our findings are that, when we look at Objective 1, which nowadays is called the convergence objective, which is the biggest pot in the regional policy budget, it does, overall, work, in the sense that you get out what you put in or a little bit more—there is a multiplier that's roughly above 1, but not much above 1. So, overall, the money the EU spends via the regional policy budget is not wasted, but it doesn't do any magic.”²¹

22. Dywedodd yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd fod gan Gymru ddisgwyliad hollol afrealistig ynghylch potensial trawsnewidiol cronfeydd strwythurol. Ychwanegodd fod cyfanswm

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 38 – 27 Chwefror 2017

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 15 – 6 Mawrth 2017

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 38 – 27 Chwefror 2017

gwerth y cronfeydd hyn yn hafal i lai nag un y cant o weithgarwch economaidd yng Nghymru.²² Pwysleisiodd yr Athro Becker hefyd bwysigrwydd daearyddiaeth gan nodi mai llawer o'r rheswm pam na fydd rhanbarthau yn dal i fyny â'r rhanbarth gyfartalog yw daearyddiaeth economaidd. Nid yw rhai llefydd yn llefydd cystal i wneud busnes.²³

23. Dywedodd Ben Cottam o Ffederasiwn Busnesau Bach wrthym eu bod yn poeni am unrhyw ostyngiad mewn cyllid yn y dyfodol. Dywedodd Mr Cottam:

“I think we as FSB share a concern about any future constriction of funding that otherwise would have been available had we remained part of the European Union. Certainly, the case was made that in Wales there wouldn't be a material impact on that. So, at FSB, we do have a concern about any future constriction.”²⁴

24. Aeth Mr Cottam yn ei flaen i gydnabod er bod angen sgysiau ynghylch ansawdd gwariant, ni ddylid lleihau'r cyllid. Dywedodd wrthym:

“So, we would like to see some movement, some indication, that there will be the protection of that to the level that we would otherwise have expected had we remained within the European Union.”²⁵

25. Ymhellach, mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynodd i'n hymchwiliad, awgrymodd yr Athro David o Brifysgol Stirling y canlynol:

“The argument that the Structural Funds offer the best possible use of scarce public resources does not have strong empirical justification. Nevertheless, there will be strong political pressure for their retention.”²⁶

Dyfodol cyllido

26. Dywedodd nifer o dystion wrthym am y risgiau i gyllido polisi rhanbarthol yn y dyfodol. Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (“CLILC”) wrthym nad oes sicrwydd o gyllid ar ôl 2020 a bod yr effaith ar gyllid cyhoeddus ehangach o bosibl yn ddinistriol i Gymru, ar ben y gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus a ragwelir eisoes.²⁷

27. Yn ei chyflwyniad i'n hymchwiliad, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym: “er gwaethaf y cynnydd a wnaed hyd yma, mae heriau hirdymor o hyd, ac mae cyllid hirdymor priodol sy'n seiliedig ar anghenion yn hanfodol er mwyn parhau i fuddsoddi mewn ymdrin â'r gwahaniaethau rhanbarthol hynny”.²⁸

28. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar adael yr UE (a gyhoeddwyd ar y cyd â Phlaid Cymru) yn nodi eu barn fod “cyllid yr UE o fudd i Gymru gan ei fod yn diwallu'r angen drwy ddefnyddio fformiwla dryloyw sydd wedi'i seilio ar reolau” a bod “angen i'r egwyddorion hyn fod yn ganolog i'r dull newydd o

²² Cofnod y Trafodion, paragraff 109 – 27 Chwefror 2017

²³ Cofnod y Trafodion, **Paragraff 26** – 27 Chwefror 2017

²⁴ Cofnod y Trafodion, **paragraff 175** – 13 Mawrth 2016

²⁵ Cofnod y Trafodion, **paragraff 179** – 13 Mawrth 2016

²⁶ **02 Cyflwyniad ysgrifenedig gan yr Athro David Bell**

²⁷ CLILC, **170224 Eitem 04 “Brexit Update and Emerging Position on Future Regional Policy”** – 24 Chwefror 2017

²⁸ **Papur 1 – Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar Bolisi Rhanbarthol yng Nghymru**

ddyrranu cyllid i Gymru o adnoddau'r DU unwaith y mae'r DU wedi ymadael â'r UE".²⁹ Mae hefyd yn nodi safbwynt ar gyllid yn y dyfodol:

“Wrth ymadael â'r UE, bydd rhaid addasu swm sylfaenol Grant Bloc Cymru fel ei fod yn adlewyrchu'r wir golled ariannol i Gymru yn sgil ymadael â'r UE, gan ystyried hefyd y cyllid y byddai Cymru wedi disgwyl ei gael yn rhesymol o ffynonellau Ewropeaidd fel arall.”³⁰

29. Awgrymodd yr Athro David Bell nad yw dull fformiwla Barnett o addasu'r grant bloc o bosibl yn ddymunol i Gymru gan nad yw'n mesur angen ac y byddai'n amodol ar unrhyw newidiadau i wario ar lefel y DU. Eglurodd:

“Further to there being an adjustment to the block grant, there would have to be equivalent spending on a UK level that could be used to determine how that block grant varied after the initial adjustment. So, basically, all of these block grant adjustments work in the following way: in the first year, you're no better off or no worse off; the amount of money transferred from Westminster to the Welsh Assembly is the equivalent of what it was in the previous year or what was planned. Subsequent to that, the amount that's received depends on the change in equivalent spending at Westminster level. So, the question is: what would be the comparator at the Westminster level? So, you know, it might be something that the UK Government decides to cut, and as a result of that the size of the block grant coming to Wales contracts.”³¹

30. Roedd gan yr Athro Kevin Morgan bryderon tebyg ynghylch y risg i Gymru dros gyfnod dyrannu cyllid polisi rhanbarthol drwy fformiwla Barnett. Fodd bynnag, dywedodd yr Athro Morgan hefyd fod risgiau yn gysylltiedig â chronfa ganolog o gyllid polisi rhanbarthol ar lefel y DU.³²

31. Yn eu hadroddiad, cynigiodd y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol (“ICA”) greu Cronfa Datblygu Rhanbarthol y DU newydd i gymryd cyfrifoldebau cronfeydd strwythurol yr UE drosodd ac y dylai cyfran berthnasol Cymru fod yn daliad sy'n fwy na'r arian sy'n ddyledus drwy fformiwla Barnett.³³ Yn ystod tystiolaeth lafar, dywedodd Peter Slater o'r ICA wrthym y gallai fod yn angenrheidiol i Lywodraeth y DU gael rôl yn nyfarniad cyffredinol yr amlen ariannu ar gyfer polisi rhanbarthol ond y dylid gwneud hyn ar sail cytundeb rhwng y pedair cenedl a rhanbarthau'r DU.³⁴

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 7. Rydym yn unfrydol ein barn na ddylai Cymru fod mewn sefyllfa waeth o ran cyllid cyfatebol o ganlyniad i adael yr UE nag y byddai pe byddai Cymru wedi aros yn yr UE.

Casgliad 8. Rydym yn dod i'r casgliad mai fformiwla yn seiliedig ar anghenion – y mae'n rhaid iddo fod yn ddarostyngedig i gytundeb pob gwlad yn y DU – i ddyrranu cyllid at

²⁹ Llywodraeth Cymru, '[Diogelu Dyfodol Cymru](#)' – 23 Ionawr 2017

³⁰ Llywodraeth Cymru, '[Diogelu Dyfodol Cymru](#)' – 23 Ionawr 2017

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 64 – 27 Chwefror 2017

³² Cofnod y Trafodion, paragraffau 165-168 – 27 Chwefror 2017

³³ [PTN 1 – Adroddiad Cynghrair Cymunedau Diwydiannol ar ddyfodol polisi rhanbarthol](#)

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 16 – 15 Mai 2017

ddibenion polisi rhanbarthol yw'r gwarantwr gorau o gydraddoldeb a thegwch rhwng rhannau cyfansoddol y DU.

Casgliad 9. Clywsom am y risgiau sy'n gynhenid i 'Barnetteiddio' unrhyw gyllid yn y dyfodol at ddibenion polisi rhanbarthol a'r angen i sicrhau bod unrhyw ddulliau ariannu yn y dyfodol wedi'i brofi ar gyfer y dyfodol.

Argymhelliad 4. Rydym yn pryderu y gallai un addasiad i'r Grant Bloc, er ei fod yn dderbyniol yn y byrdymor, beri risgiau yn y tymor hwy ac felly argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod arian wedi'i brofi ar gyfer y dyfodol ac yn edrych ar rinweddau fformiwla gwrthrychol sy'n seiliedig ar anghenion, fel y cytunwyd gan bob gwlad yn y DU.

Dyfodol pwerau ar gyfer polisi rhanbarthol

32. Roedd y cwestiwn o sut y dylai polisi rhanbarthol weithredu yn y DU ar ôl gadael yr UE yn elfen allweddol o'n hymchwiliad. Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig, eglurodd Dr Jayne Woolford y gallai nifer o sefyllfaoedd lenwi'r "gwactod polisi" a fydd wedi'i adael ar ôl i'r DU adael yr UE.³⁵ Dywedodd Dr Woolford y gallai'r DU ddeddfu ar gyfer polisi tiriogaethol ar lefel y DU ac mae'n nodi'r ffaith mai safbwynt y DU fu ail-wladoli'r polisi gydag Aelod-wladwriaethau cyfoethocach yn ariannu eu polisi eu hunain i leihau gwahaniaethau rhanbarthol dros nifer o flynyddoedd.³⁶

33. Ar y llaw arall, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir yn ei Phapur Gwyn fod datblygu economaidd rhanbarthol yn faes polisi datganoledig. Nododd Llywodraeth Cymru:

"Llywodraeth Cymru'n unig, drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, busnesau a'r trydydd sector, sy'n meddu ar y gallu strategol i roi datblygu economaidd micro ar waith, boed hynny ar lefel cymunedol neu ranbarthol. Byddwn yn gwrthod yn gadarn unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i ymyrryd yn y maes datganoledig hwn."³⁷

34. Ymhelaethodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y safbwynt hwn yn ystod tystiolaeth lafar. Dywedodd Mr Drakeford:

"Chair, what we have said, and we say it in the White Paper and we say it very loudly every time, is that competencies that exist at the devolved level today remain at the devolved level when we leave the European Union. We don't use the term 'repatriation' because we think it is misleading. Those competencies are here now. We choose to exercise them at the European level. When the European level isn't there, we will still be here and the competencies will be here as well. So, the danger we are pointing to is that, what sometimes appears to be a rather different view of the world at the Westminster end—that post Brexit, these competencies are free-floating and they could grab them first, is not our view of the world. So, it's not a present danger, but it is a risk in the

³⁵ IOB 47 Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd, Dr Jayne Woolford

³⁶ Ibid.

³⁷ Llywodraeth Cymru, 'Diogelu Dyfodol Cymru' – 23 Ionawr 2017

way that these things might be thought of in the future, although we are very clear indeed as to where we see these things lying.”³⁸

35. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym hefyd pe byddai Llywodraeth y DU am gymryd rheolaeth o'r pwerau hyn, yna byddai angen deddfwriaeth ar lefel y DU.³⁹ Mae hyn yn cyd-fynd â'r cyngor cyfreithiol a gawsom gan ein cynghorwyr yn y Cynulliad Cenedlaethol sef, pan fyddwn yn gadael yr UE, ni fyddai cyfyngiadau a roddwyd ar setliad datganoli Cymru, yn rhinwedd cyfraith yr UE, ym maes datblygu economaidd a rhanbarthol yng Nghymru yn gymwys mwyach. Bydd cyfyngiadau'r DU – ar ffurf amheuan o gymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol yn ymwneud ag agweddau ar bolisi rhanbarthol (er enghraifft rhai liferi ariannol) – yn parhau i fod ar waith, ond bydd gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad fwy o ryddid i lunio cyfreithiau i Gymru ar bynciau datganoledig. Er mwyn ceisio newid y setliad hwn, byddai angen:

- Deddf Seneddol; neu
- Gorchymyn Adran 109 (o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

36. Darperir trosolwg manwl o'r sefyllfa gyfreithiol ar dudalen 20.

37. Nododd yr Athro Kevin Morgan bryderon ynghylch cyfrifoldebau heb adnoddau. Yn ôl yr Athro Morgan:

[...] But, for me, there's also the issue of powers, the repatriation of powers. When they come back from Brussels, as it were, how are they then allocated between Whitehall and Wales? We have to be clear that we need the powers to do the job, but we also need to be careful, it seems to me, that the powers that are devolved, the responsibilities that are devolved, also come with resources. We don't want responsibilities without resources. That's a very, very important issue.”⁴⁰

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU o ran:

- yr angen i Lywodraeth y DU gyflwyno cynigion ar gyfer strwythur rhynglywodraethol ffurfiol i gytuno ar ddyraniadau cyllido a datrys gwrthdaro sy'n debyg i 'Gyngor y Gweinidogion' y DU; ac
- yr angen am eglurder gan Lywodraeth y DU o ran p'un a yw eu safbwyntiau ar statws cyfreithiol y pwerau ar gyfer polisi rhanbarthol yn cyd-fynd â Llywodraeth Cymru.

³⁸ Cofnod y Trafodion, **paragraff 101** – 20 Mawrth 2016

³⁹ Ibid. **paragraff 104** - 20 Mawrth 2016

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraffau 140 – 27 Chwefror 2017



YMADAWIAD Y DU Â'R UE A DATGANOLI YNG NGHYMRU

Beth fydd y sefyllfa gyfreithiol ar ôl ymadael â'r UE?

Cyn gadael yr UE

Gall y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru ond gwneud cyfreithiau ar gyfer Cymru sy'n cydymffurfio â chyfraith yr UE. Yn ôl rhai, byddai canlyniadau hyn yn dda, ond fel arall fyddai yn ôl pobl eraill.



Ymadael â'r UE

Mae'r Goruchaf Lys wedi dyfarnu y bydd dileu cyfyngiadau'r UE, wedi i'r DU dynnu'n ôl o gytundebau'r UE, yn golygu newid yng nghymhwysedd y sefydliadau datganoledig, **oni bai** y caiff cyfyngiadau deddfwriaethol newydd eu cyflwyno (gweler Llwybr 1). Yn **niffyg** cyfyngiadau newydd o'r fath, bydd ymadael â'r UE yn **gwella** cymhwysedd datganoledig (gweler Llwybr 2).



Llwybr 1

Llwybr 2

os caiff setliad datganoli Cymru ei adael fel y mae.

Wedi ymadael â'r UE

Mae'n bosibl na fydd y pwerau yn wahanol iawn yn ymarferol oherwydd y cymalau cadw presennol ynghylch cymhwysedd. Fodd bynnag, gyda'r angen i gydymffurfio â chyfraith yr UE wedi mynd, bydd gan Gymru fwy o ryddid ynghylch cynnwys ei chyfreithiau.



os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu newid setliad datganoli Cymru. Sut y gellir ei wneud? Mae tair ffordd.

01 Deddf Seneddol

- e.e. Bil y Diddymu Mawr neu (fel sy'n fwy tebygol) Biliau diweddarach sy'n gysylltiedig ag ymadael â'r UE
- yn mewnosod cymalau cadw neu gyfyngiadau newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

A fyddai angen caniatâd y Cynulliad?

- Byddai - o ran confensiwn cyfansoddiadol
- Ond gallai Llywodraeth y DU haeru nad yw'r confensiwn yn berthnasol o dan yr amgylchiadau
- Beth bynnag, mae'r Goruchaf Lys wedi dyfarnu nad yw'r 'gofyniad' am ganiatâd yn un cyfreithiol
 - h.y. ni all y Cynulliad fynd â Llywodraeth y DU na'r Senedd i'r llys os ydynt yn anwybyddu barn y Cynulliad.

02 Gorchymyn Adran 109

- Gorchymyn arbennig a wneir gan y Frenhines o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yw hwn.
- Byddai hwn yn bendant, o dan y gyfraith, yn gofyn caniatâd y Cynulliad.

03 Is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Llywodraeth y DU

Mae hon yn ffordd 'anuniongyrchol' o gyfyngu ar bwerau'r Cynulliad neu bwerau Llywodraeth Cymru. Yn gyfreithiol, ni fyddai'n gofyn am gydsyniad y Cynulliad, ond, yn ôl pob tebyg, byddai'r Cynulliad neu Lywodraeth Cymru yn gallu ei gwaredu a'i disodli â chyfraith Cymru.

Wedi ymadael â'r UE



Ni fyddai gan y Cynulliad na Llywodraeth Cymru fwy o ryddid i lunio deddfau i Gymru ar bynciau datganoledig nag a oedd ganddynt cyn ymadael â'r UE. Yn lle'r angen i gydymffurfio â chyfraith yr UE, byddai angen cydymffurfio â rheolau cyffredin y DU.



04. Egwyddorion ar gyfer polisi yn y dyfodol

38. Yn ystod ein hymchwiliad, clywsom gan nifer o dystion a nododd sawl egwyddor allweddol a allai fod yn sail i unrhyw bolisi rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru.

Eglurder pwrpas

39. Roedd pwysigrwydd eglurder pwrpas yn thema allweddol. Clywsom fod diffyg eglurder ynghylch pwrpas polisi rhanbarthol – a'r cyllid a glustnodwyd at y pwrpas hwnnw – wedi arwain at ganlyniadau cymysg yn y gorffennol. Dywedodd Paul Byard o EEF – Sefydliad y Gwneuthurwyr wrthym:

“If you think about the last two decades, we haven’t had a form of—I’m going to use the words ‘industrial strategy’ a number of times this afternoon—we haven’t had a form of industrial strategy to give a common purpose. I think if we all had that common purpose in mind, it would be far easier to look at the connectivity between all of these activities and that’s what fundamentally lacking.”⁴¹

40. Roedd gan Mr Grant Santos o Educ8 – cwmni wedi'i leoli yng nghymoedd y de ac sy'n cyflogi prentisiaid a ariennir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop – farn debyg. Dywedodd wrthym:

“I personally think, in terms of ambition, aspiration, we need our communities—and we are based in the Valleys—to buy into a common vision and a common aspiration for Wales. I think mindset is important. I think the impact of some of the programmes that we’ve dealt with in terms of European programmes have maybe not had the harder impact, but they’ve had softer elements in terms of self-esteem, confidence building, and helping people get closer to the labour market, even if they may not have actually got into the labour market, and I think we’ve got to challenge our communities to actually think bigger and actually buy into something different, particularly the Valleys. That’s where I’m from, and that’s where we’re based. I think it’s really important that they actually can see the leadership and the vision there and grab hold of it and want to be part of it.”⁴²

Argymhelliad 6. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phob partner perthnasol i fynegi gweledigaeth glir a phwrpas y polisi rhanbarthol yn y dyfodol sy'n gwneud y gorau o'r cyfle i feddwl o'r newydd ac sy'n ystyried y manteision ac anfanteision wrth lunio strategaeth ddiwydiannol newydd i Gymru ar ôl gadael yr UE.

⁴¹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 257](#) – 6 Mawrth 2017

⁴² Cofnod y Trafodion, [paragraff 199](#) – 13 Mawrth 2016

Mesur a gwerthuso

41. Clywsom gan rai tystion bod diffyg gwerthuso ac adborth wedi llesteirio effeithiolrwydd y polisi mewn cylchoedd ariannu blaenorol. Dywedodd yr Athro Kevin Morgan wrthym:

“We don’t do enough monitoring and evaluation of our policies in Wales to create an evidence base to show us what works where and why. We really need a robust evidence base for that, especially now, as we’ve got this once-in-a-lifetime opportunity to design a new policy that is locally attuned. European structural funds—a lot of good things went on, in my view, in the design, but they were hugely over-prescriptive.”⁴³

42. Nododd yr OECD yn ei gyflwyniad ysgrifenedig i'n hymchwiliad fod mesur perfformiad yn dod yn fwyfwy pwysig wrth wneud polisi rhanbarthol a bod diffyg data dibynadwy yn aml yn un o'r prif gyfyngiadau ar gyfer polisiau rhanbarthol yn enwedig ar lefel is-genedlaethol.⁴⁴

43. Gwnaeth Ann Beynon, Cadeirydd Prifddinas-ranbarth Caerdydd, bwynt tebyg gan bwysleisio pa mor bwysig yw mesur effaith. Yn ôl Ms Beynon:

“Beth oedd yn fy mhoeni fi fwyaf, a dweud y gwir, oedd yr anhawster o fesur project WEFO mewn ffordd a oedd yn economaidd real. Felly, roedd y project yn creu swyddi, roedd y project yn amddiffyn swyddi, efallai, ond a oedd e wedi creu ffyniant economaidd? Nid yw'r ddau beth ddim o anghenraid yr un peth, felly roedd beth ydych chi'n ei fesur yn mynd yn broblem. Ac, wel, mae'n mynd yn ôl i'r un peth: beth ych chi'n mynd i'w fesur?”⁴⁵

44. Gwnaeth mwyafrif o dystion awgrymu i ni y dylai unrhyw bolisi yn y dyfodol fesur mwy na dim ond dangosyddion economaidd. Awgrymwyd mesurau ehangach o lesiant a nodwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁴⁶ fel fframwaith posibl ar gyfer polisi yn y dyfodol.⁴⁷

45. Eglurodd yr OECD yn ei bapur fod cyd-destun llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth y dylid ystyried amodau economaidd fel rhan o systemau ac amodau cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Mae'r sefydliad hefyd wedi datblygu 'Fframwaith i Fesur Llesiant a Chynnydd' sy'n annog llywodraethau i feddwl am gyfalaf naturiol, economaidd, dynol a chymdeithasol yn gysylltiedig â'i gilydd ac felly, mae'n cefnogi'r syniad o gyfatebolrwydd polisi.⁴⁸ Yn rhanbarthol, mae'r Fframwaith yn ystyried cyfuniad o nodweddion unigol ac amodau lleol i fod yn agosach i'r hyn mae pobl yn ei brofi yn ei bywyd.

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 148 – 27 Chwefror 2017

⁴⁴ [03 Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr OECD ar bolisi rhanbarthol yng Nghymru](#)

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, [paragraff 162](#) - 13 Mawrth 2017

⁴⁶ [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 112 – 27 Chwefror 2017; Cofnod y Trafodion, [paragraff 88](#) – 6 Mawrth; Cofnod y Trafodion, [paragraff 159](#) - 13 Mawrth 2016

⁴⁸ [03 Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr OECD ar bolisi rhanbarthol yng Nghymru](#)

46. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yna gyfyngiadau yn gysylltiedig â defnyddio Gwerth Ychwanegol Crynswth fel yr unig ffordd o fesur effaith. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym:

“[...] another thing that we have learnt from other parts of the European Union has been a way of trying to be more precise about the way in which the investments we make through regional funds can be tracked to particular outcomes. And so, there is a European-wide attempt to try to capture things that are called ‘result indicators’. So, result indicators are more carefully calibrated indicators, where you can do more than just have an association between the investment you’re making and the outcome that you are securing.”⁴⁹

Argymhelliad 7. Rydym yn argymhell y dylai unrhyw bolisi yn y dyfodol geisio mesur effaith gan ddefnyddio ystod ehangach o ddangosyddion yn hytrach na dangosyddion economaidd yn unig.

Symleiddio a hyblygrwydd

47. Soniodd llawer o dystion am y cyfleoedd fydd yn bodoli drwy adael yr UE i ddechrau o'r newydd ac edrych i leihau'r baich biwrocraidd. Dywedodd Richard Morgan o Valleys Kids:

“So, I suppose that my plea for when you are doing it—when it’s Wales that’s doing it—is that (a) it’s less bureaucratic, but (b) that it’s local. We can’t do things to people. We have to do things with people. If people in communities are going to change, they have to change themselves. We can help them do it, and European funding has undoubtedly had tremendous success in doing that, but as a small, local organisation, it’s got more and more bureaucratic, more and more ‘big is beautiful’. The excruciating bureaucracy in accessing it has meant that it became outside even organisations of our size.”⁵⁰

48. Dywedodd Ben Cottam o'r FSB wrthym am gyfraniad y sector preifat mewn cylchoedd blaenorol:

“I think what we have heard throughout the process, since the coming of Objective 1, is that the processes have been quite laborious. So, in the first tranche of funding, where businesses themselves were encouraged to participate directly, we knew that that was quite a difficult process, that it was a very bureaucratic process. I think that probably still remains.”⁵¹

49. Gwnaeth sawl tyst, gan gynnwys yr Athro Morgan a Dr Woolford, bwysleisio pwysigrwydd hyblygrwydd wrth gynllunio a chyflwyno polisi yn y dyfodol.⁵² Roedd Peter Slater o'r Gynghrair Cymunedau Diwydiannol yn cytuno, gan nodi fod diffyg hyblygrwydd yn y system bresennol wedi'i gwneud yn anoddach i gwmnïau a darparwr hyfforddiant gael gafael ar arian.⁵³ Nododd fod cymorth i'r

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 68 – 20 Mawrth 2017

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, **paragraff 150** – 6 Mawrth 2017

⁵¹ Cofnod y Trafodion, **paragraff 182** – 13 Mawrth 2017

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraffau 144 a 147 – 27 Chwefror 2017;

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 28 – 15 Mai 2017

polisi gweithgynhyrchu a diwydiannol, nad yw wedi'i gydnabod yn benodol yn y rhaglen cronfeydd strwythurol, yn un maes a allai gael budd yn sgil mwy o hyblygrwydd.

50. Clywsom hefyd nifer o ddadleuon yn ymwneud â symleiddio strwythurau ar gyfer cyflwyno. Trafodir y rhain ym mhennod 5.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad sut y bydd yn sicrhau gwell symleiddio a hyblygrwydd yn y rheolau sy'n llywodraethu polisi rhanbarthol ar ôl i'r DU adael yr UE. Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ar ba agweddau y byddai'n ceisio eu cadw o'r weithdrefn bresennol.

Arfer gorau yn rhyngwladol

51. Yn ystod ein hymchwiliad, cyfeiriodd nifer o dystion at enghreifftiau rhyngwladol o arfer gorau a allai fod yn fodolau y gall Cymru geisio eu hefelychu.

52. Gwnaeth y Cynghorydd Phil Bale, yn siarad yn rhinwedd ei swydd fel arweinydd CLILC dros Faterion Ewropeaidd, bwysleisio pa mor bwysig yw edrych tuag allan:

“I do want to pick up a point that was made earlier about the Cardiff region being the wealthiest in Wales. If you actually look at the data, only Sheffield was below us in terms of league tables, if you look outside of Wales. And I think, if we hadn't secured that city deal with the UK Government, we'd have fallen to the bottom of the league table in terms of productivity. So, we really need to work much harder as a region and as a country to make sure that we're benchmarking against others in the UK and internationally, because there's a danger that we look inwards, as others have talked about, and look at comparisons within regions, when we also need to be looking much more broadly internationally as well.”⁵⁴

53. Soniodd yr Athro Kevin Morgan am achos Gwlad y Basg. Dywedodd wrthym:

“I think it's useful to have a reference point that is comparable, and I do a lot of work in the Basque Country, for example. That is a comparable economy to Wales, in terms of a heavy industrial base. The Basques have had a more favourable fiscal settlement than us; there is no doubt about that. But it's not just about money, it's about the deployment of that money, how that money has been deployed, and how it has been embedded in a suite of policies that are integrated—a much more holistic approach to development. So, for example, back in the 1990s, Bilbao was reconstructing its economy in a very sustainable way, investing in connectivity. I came back to Wales in 1990; there was a debate about a metro for south Wales. In 1936, David Marquand's father, Hilary Marquand, wrote a remarkable book called South Wales Needs a Plan, and in it was the heart of a regional transit system linking the Valleys with the coast. I think you can say we haven't rushed into that decision. And, therefore, why have these things not happened? I would say, looking at Scotland, looking at the Basque Country, looking at other regions—comparable regions that I work

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, [paragraff 123](#) – 6 Mawrth 2017

in—that, at the end of the day, it's about a combination of greater political will elsewhere, and greater awareness of the developmental challenge.”⁵⁵

54. Soniodd Peter Slater o'r ICA am Ddyffryn Ruhr yng Ngogledd Rhine-Westphalia fel un enghraifft o ardal ddiwydiannol iawn gymharol sy'n trawsnewid drwy ôl-ddiwydiannu heb y dirywiad cysylltiedig mewn perfformiad economaidd cymharol. Dywedodd fod hyn wedi'i gyflawni drwy fuddsoddiad mewn addysg dechnegol ac addysg uwch.⁵⁶

55. Clywsom yn uniongyrchol hefyd gan Michael Koch-Larsen ac Asger Andreassen o Ranbarthau Ddermac am y sefyllfa yn Nermac. Mae astudiaeth achos ffeithiol i'w gweld yn Nhabl 1.

1. Astudiaeth achos ar Ddenmarc a rhanbarthau Denmarc

Mae gan Ddenmarc boblogaeth o 5.7 miliwn a hi yw'r ail wlad fwyaf datganoledig yn yr OECD. Hi hefyd yw'r pumed gwlad lleiaf trefol gyda dim ond 22 y cant o'r boblogaeth sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn bennaf.⁵⁷

Yn 2007, yn sgil diwygio llywodraeth rhanbarthol a llywodraeth leol, crëwyd pum llywodraeth rhanbarthol newydd: Gogledd Jutland, Canol Jutland, De Denmarc, Zealand a Rhanbarth y Brifddinas. Mae'r rhanbarthau hyn wedi cael cyfrifoldeb dros ddatblygu economaidd rhanbarthol.

O dan **Ddeddf Datblygu Busnes** mae gan y rhanbarthau gyfrifoldeb statudol i sefydlu fforymau rhanbarthol sy'n cyfuno cynrychiolwyr o'r rhanbarthau, y bwrdeistrefi, y gymuned fusnes, sefydliadau gwybodaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill fel undebau llafur.

Mae'r fforymau twf rhanbarthol hyn yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth busnes rhanbarthol, monitro tueddiadau economaidd rhanbarthol a lleol a gwneud argymhellion a rhoi cyngor i'r llywodraethau rhanbarthol.

Mae **Cyngor Twf Denmarc** yn goruchwyllo gweithgareddau y fforymau rhanbarthol. Mae'r Cyngor Twf yn gyfrifol am hyrwyddo gwaith cydlynu rhwng y strategaeth twf cenedlaethol a'r strategaethau datblygu busnes rhanbarthol.

Mae gwerthusiad gan y Comisiwn Ewropeaidd ar ddefnydd fforymau twf o gronfeydd strwythurol yn awgrymu rhwng cyfnod 2007-14 fod y busnesau a gymerodd ran mewn gweithgareddau fforwm wedi creu 8,300 yn fwy o swyddi na grŵp rheoli na wnaeth gymryd rhan a hefyd eu bod gweld mwy o drosiant o gymharu â busnesau yn y grŵp rheoli (na chafodd gymorth). Nodwyd fod alinio'r cronfeydd strwythurol i gyflawni strategaethau datblygu rhanbarthol yn agwedd allweddol ar lwyddiant y fforymau. Nodwyd yr angen i gydlynu gweithgareddau ar draws ffiniau rhanbarthol fel un maes datblygu.⁵⁸

56. Bu i ni archwilio rhai elfennau o'r sefyllfa yn Nenmarc yn fanylach yn ystod tystiolaeth lafar. Yn ystod ein sesiwn, pwysleisiodd Mr Andreassen y pwysigrwydd o gydnabod y gwahaniaethau mewn amodau strwythurol rhwng rhanbarthau. Dywedodd wrthym fod y dull polisi rhanbarthol yn Nenmarc

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, **paragraff 119** – 27 Chwefror 2017

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, **paragraff 40** – 15 Mai 2017

⁵⁷ OECD, **Rhagolwg Rhanbarthol 2016 Denmarc** – 2016

⁵⁸ Y Comisiwn Ewropeaidd, **Mentrau Fforwm Twf (De Denmarc)** – Mawrth 2017

yn canolbwyntio ar gryfderau pob rhanbarth yn hytrach na chystadleuaeth uniongyrchol rhwng rhanbarthau. Aeth Mr Koch-Larsen ymlaen i esbonio:

“One interesting thing that happened recently is that all regions, they agreed on opening up their regional schemes for businesses from all over the country. So, if you have some kind of initiative for the maritime industry, then the maritime industry from all over the country could apply to become a member of this initiative, even though it’s initially for only one region and financed from only one region. So, there is huge co-operation between the regions.”⁵⁹

57. Hefyd, pwysleisiodd Michael Koch-Larsen y manteision o gael un corff yn cydlynu'r gwahanol gronfeydd wrth osod y blaenoriaethau. Dywedodd wrthym:

“What really works well is that we co-ordinate the effort from the social fund and the regional development fund and the regions’ own funds. That is, three funds, and the prioritisation of these three funds is done in the same body, with the individual growth forum, which includes all partners. So that’s really strong, and you get very focused spending of all the funds that are available for regional development, and that can only be done, I think, through the fact that, in Denmark, these two EU funds are administrated in the same ministry. So, they have the same perspective on business development and job creation as their only goal. If you have one ministry of business and another of, I don’t know, it could be a labour market or an industry or something, they would have different goals that are even more difficult.”⁶⁰

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 10. Mae ein hadroddiad wedi nodi nifer o egwyddorion pwysig ar gyfer cynllunio a chyflwyno polisi rhanbarthol yng Nghymru yn y dyfodol. Dylai ystyried yr egwyddorion: eglurder pwrpas, mesur a gwerthuso; symleiddio a hyblygrwydd; ac arfer gorau rhyngwladol fod yn ganolog i syniadaeth Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Casgliad 11. Roeddem yn eithriadol o siomedig, fodd bynnag, gyda diffyg creadigrwydd a dychymyg a ddangoswyd yn y dystiolaeth a gawsom. Credwn fod yn rhaid i'r cyfle i edrych o'r newydd ar bolisi rhanbarthol nawr, ac wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, gael ei atafaelu gan bawb sy'n gysylltiedig â'r maes polisi cyhoeddus hwn a phawb sy'n cael eu heffeithio ganddo.

Argymhelliad 9. Er mwyn llywio gwaith cynllunio a chyflwyno polisi rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru:

- gomisiynu gwaith ymchwil arbenigol ar effeithiolrwydd ei bolisiau presennol a chyflwyno cynigion ar gyfer polisiau newydd yn seiliedig ar arfer gorau o bob rhan o'r byd;
- nodi yn ei hymateb i'n hadroddiad sut y bydd yn sicrhau bod pob swyddog perthnasol yn dysgu o arfer gorau rhyngwladol;

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 184](#) – 15 Mai 2017

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, [paragraff 195](#) – 15 Mai 2017

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r amserlenni a ragwelir ar gyfer y gwaith ymchwil hwn yn ei hymateb i'r adroddiad.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwerthuso a oes dulliau mwy cadarn ar gyfer casglu a dadansoddi data er mwyn dylunio a gwerthuso polisi rhanbarthol yn y dyfodol a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag arbenigwyr rhyngwladol, fel yr OECD, er mwyn gwneud hyn.

05. Strwythurau ar gyfer cyflawni polisi rhanbarthol yn y dyfodol

58. At ddibenion cyfrifo dyraniadau cyllid, ac er mwyn gweinyddu lefelau'r cymorth, mae Cymru wedi'i rhannu'n endidau daearyddol ar hyn o bryd sy'n debyg i fodel NUTS-II yr UE.⁶¹ Roedd sawl tyst yn dadlau y byddai gadael yr UE yn gyfle i ddod â'r gwahaniaethau tiriogaethol hyn i ben, yn enwedig y rhaniad artiffisial rhwng Gorllewin a Dwyrain Cymru.⁶² Clywsom hefyd nifer o ddadleuon yn ymwneud â strwythurau ar gyfer cyflwyno polisi rhanbarthol yn y dyfodol.

Strwythurau rhanbarthol

59. Soniodd nifer o dystion y gallai cymhlethdod strwythurol tirwedd darparu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru fod yn her o ran pennu sut i drefnu a gweinyddu polisi rhanbarthol yn y dyfodol.

60. Dadleuodd Ann Beynon, sy'n gyfrifol am gynghori Llywodraeth Cymru yn Prifddinas-ranbarth Caerdydd, fod angen edrych ar strwythurau darparu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Disgrifiodd y dirwedd bresennol yng Nghymru fel "spaghetti junction...o haenau" nad yw'n "mynd i weithio".⁶³ Aeth Ms Beynon ati i ddweud:

"Byddwn i'n dechrau trwy symleiddio, achos mae sawl haen ranbarthol yng Nghymru, sydd yn cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gymhleth. Mae'r byrddau iechyd yn wahanol; mae'r datganiadau ardal yn wahanol; mae gennym ni 22 LDP, er enghraifft—a ydyn ni angen 22? So, mae eisiau i rywun ar lefel Cymru symleiddio hynny i gyd a dod i benderfyniad."⁶⁴

61. Gwnaeth Tim Peppin o CLILC gyferbynnu gweithio ar lefel ranbarthol gyda gweithio ar lefel awdurdod lleol:

"I think the local authorities have worked together to do an analysis of their regions' strengths and weaknesses, and I think it leads to a very different type of analysis. For example, on the planning front, each individual authority doing their own local development plan would come up with a certain set of proposals. When you look at that on a regional basis, you come up with a very different set of ideas of what would be the way forward. It opens up a lot more opportunities."⁶⁵

⁶¹ Mae Cyfundrefn Enwi Unedau Tiriogaethol ar gyfer Ystadegau (NUTS) 2013 wedi'u nodi yn Rheoliad y Comisiwn (UE) 1319/2013 ar 9 Rhagfyr 2013. Mae NUTS 2013 yn cynnig dadansoddiad cyson ac unffurf o unedau tiriogaethol er mwyn cynhyrchu ystadegau rhanbarthol ar gyfer yr UE.

⁶² [Papur 1 – Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar Bolisi Rhanbarthol yng Nghymru](#)

⁶³ Cofnod y Trafodion, [paragraff 118](#) - 13 Mawrth 2017

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, [paragraff 139](#) – 6 Mawrth 2017

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, [paragraff 45](#) – 6 Mawrth 2017

62. Aeth ymlaen i egluro rhai o'r manteision posibl o fabwysiadu dull mwy rhanbarthol:

“I think one of the things with the regional working is we can start looking at packages of investment where you're not so grant dependent. There may well be—. To give you an example, look at the metro in south-east Wales: if you start to talk about residential development around hubs or commercial development at stations, those are the sorts of things that have a commercial return. So, there's a possibility of bringing in other sources of investment.”⁶⁶

Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf

63. Nodwyd rhaglen Llywodraeth y DU o Fargeinion Dinesig a Thwf lle cytunir ar becynnau pwrpasol o arian cyhoeddus a phreifat a phwerau gwneud penderfyniadau rhwng llywodraeth ganolog, datganoledig a lleol, fel ffurf newydd o gymorth rhanbarthol⁶⁷ Cytunwyd ar Fargeinion Dinesig yn ddiweddar ar gyfer Caerdydd ac Abertawe a fydd werth £1.2 biliwn a £1.3 biliwn yn y drefn honno.⁶⁸ Mae Bargaen Twf wrthi'n cael ei hystyried ar gyfer gogledd Cymru hefyd.⁶⁹

64. Roedd gan rai tystion amheuan ynghylch y model hwn ac yn credu y dylai ategu yn hytrach na disodli'r cynlluniau sy'n gweithredu ar hyn o bryd yng nghyd-destun aelodaeth yr UE. Nododd yr Athro Becker bryderon ynghylch y rôl fargeinio wrth bennu cymorth rhanbarthol. Cymharodd y sefyllfa â'r Almaen, gan ddweud bod gan y wlad: “fiscal equalisation scheme, which is somehow formula based and reshuffles money from the richer parts to the poorer parts, and that has a certain beauty to it because there is less behind-the-scenes bargaining, and more objective criteria being applied”.⁷⁰

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 12. Rydym yn croesawu rhaglen Llywodraeth y DU o Fargeinion Dinesig a Bargeinion Twf a'r buddsoddiad ychwanegol yn y sector cyhoeddus a phreifat a ddaw gyda hynny. Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig bod polisi rhanbarthol yn y dyfodol yn ategu mentrau o'r natur hon. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, nad yw pob ardal yng Nghymru yn cynnwys y bargeinion hyn ac o'r farn na ddylai unrhyw ardal o Gymru gael ei hanwybyddu gan bolisi yn y dyfodol.

Casgliad 13. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai cymhlethdodau wrth gytuno ar Fargeinion Dinesig a Bargeinion Twf ac yn nodi bod angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio i sicrhau eu bod yn cyfateb.

Atebolrwydd Lleol a chyd-gynllunio

65. Gwnaeth nifer o dystion gan gynnwys y WCVA a'r FSB bwysleisio na ddylai symud tuag at weithio rhanbarthol fod ar draul rheolaeth ddemocrataidd ac atebolrwydd lleol.

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 46 – 6 Mawrth 2017

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 31 – 6 Mawrth 2017; Cofnod y Trafodion, paragraff 39 – 6 Mawrth 2017; Cofnod y Trafodion, paragraff 52 – 13 Mawrth 2017;

⁶⁸ Llywodraeth y DU, “PM visits Wales before triggering Article 50” – 20 Mawrth 2017; Llywodraeth y DU, “City Deal: Cardiff Capital Region” – 15 Mawrth 2016

⁶⁹ Llywodraeth y DU, “Secretary of State pushes forward with growth deal for North Wales” – 31 Mawrth 2016

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 43 – 27 Chwefror 2017

66. Amlygodd Dr Jayne Woolford rai o fanteision mwy o ddatblygiad lleol dan arweiniad y gymuned gan gynnwys dull LEADER sy'n cynnwys dull cyfranogol mwy lleol.⁷¹ Dadleuodd Dr Woolford y gallai'r dulliau hyn fod yn arbennig o fuddion mewn rhannau gwledig o Gymru.⁷²

67. Dywedodd Richard Morgan o Valleys Kids:

“My plea is that you have to do it locally. You have to do it with people. You have to do what people tell you they want. You have to be innovative as well because people will say, you know, ‘I want a swimming pool’ or ‘I want a paddling pool’; so, there has to be that access. It’s great to have access to Europe, but you have to do it with people, take them with you and motivate them to change.”⁷³

68. Yng nghyd-destun Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, dywedodd y Cynghorydd Phil Bale wrthym fod angen bod yn fwy agored wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd y Cynghorydd Bale:

“It is really, really important, though, when you look at the narrative around some of these arrangements, and these big sums of money, that you do connect with people. It has been a real challenge for us in the Cardiff capital region, when you’re talking about innovation, when you’re talking about digital and economy and skills: what does that actually mean to local communities and people when you’re knocking doors and talking to residents in your communities? So, we do need to translate that.”⁷⁴

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 14. Er ein bod yn cydnabod y manteision posibl o weithio'n rhanbarthol, rydym yn cydnabod yr heriau posibl o ran dilysrwydd democrataidd ac atebolrwydd sy'n gysylltiedig â'r strwythurau rhanbarthol newydd sy'n cael eu creu.

Casgliad 15. Rydym yn rhannu rhai o'r pryderon a fynegwyd ynghylch cymhlethdod tirwedd y sector cyhoeddus yng Nghymru a'r goblygiadau y gallai hyn eu cael ar gyflwyno polisi rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut bydd yn sicrhau bod strwythurau rhanbarthol newydd yng Nghymru yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Ar ben hynny, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ardaloedd gwledig yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn cael eu cyfrif yn briodol wrth gynllunio a chyflwyno polisi rhanbarthol yn y dyfodol.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa newidiadau strwythurol allai fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i sicrhau bod y strwythurau sydd ar waith i gyflawni polisi rhanbarthol yn addas at y diben ar ôl i'r DU adael yr UE.

⁷¹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 116](#) – 27 Chwefror 2017

⁷² Cofnod y Trafodion, [paragraff 116](#) – 27 Chwefror 2017

⁷³ Cofnod y Trafodion, [paragraff 152](#) – 6 Mawrth 2017

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, [paragraff 88](#) – 6 March 2017

Trosolwg strategol

69. Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig, nododd CLILC ei safbwynt ar rôl Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno unrhyw bolisi rhanbarthol yn y dyfodol:

“The decision-making, governance, implementation and delivery of future funding and finance should be devolved to the regions, as is currently happening with the City Deals in South East and South West Wales and the Growth Deal in North Wales, thus negating the need for national Wales wide programmes administered centrally by the Welsh Government.”⁷⁵

70. O ran rôl Llywodraeth Cymru, dywedodd CLILC y dylai ddarparu fframwaith cyffredinol yn nodi'r amcanion allweddol a darparu cyfeiriad cenedlaethol strategaethol ar gyfer datblygu economaidd ond nid cyflwyno ymyriadau uniongyrchol.⁷⁶

71. Yn ei dystiolaeth, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol safbwynt Llywodraeth Cymru ar drosolwg strategol a chyflwyno'n lleol. Dywedodd wrthym:

“I think there are some lessons about national strategies locally delivered—that you can't simply leave it to the local level altogether; you need a national strategic approach, but then recognise the importance of local delivery agents in making those things happen.”⁷⁷

72. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru atal rôl ar gyfer cyflwyno'n genedlaethol mewn rhai achosion. Amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet brentisiaethau a chymorth a gydlynir yn genedlaethol ar gyfer busnes fel dwy enghraifft.⁷⁸ Aeth ymlaen i sôn am ei athroniaeth gyffredinol:

“Bringing people together and coming to the right answer, rather than just thinking that we are always the right answer ourselves, will be the way I think we would want to do it.”⁷⁹

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 16. Rydym o'r farn bod cael y strwythurau cywir ar gyfer cyflawni polisi rhanbarthol yn y dyfodol yn allweddol i lwyddiant polisi rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru. Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf, dylai Llywodraeth Cymru edrych ar osod y cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer y polisi tra'n gweithio gyda phartneriaid, yn enwedig y sector preifat, i nodi'r dulliau gorau ar gyfer cyflawni ei hamcanion strategol. Wrth bennu'r cyfeiriad cyffredinol, dylai Llywodraeth Cymru hefyd osod paramedrau clir er mwyn monitro a gwerthuso canlyniadau yn effeithiol.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cadw goruchwyliaeth ac yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer polisi rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru tra'n sicrhau bod polisi yn y dyfodol yn ymatebol i anghenion lleol a bod y cyfrifoldeb dros gyflwyno wedi'i amlinellu'n glir.

⁷⁵ CLILC, [170224 Eitem 04 “Brexit Update and Emerging Position on Future Regional Policy”](#) – 24 Chwefror 2017

⁷⁶ CLILC, [170224 Eitem 04 “Brexit Update and Emerging Position on Future Regional Policy”](#) – 24 Chwefror 2017

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, [paragraff 35](#) – 20 Mawrth 2016

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, [paragraff 111](#) – 20 Mawrth 2016

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 112](#) – 20 Mawrth 2016

06. Dulliau yn y dyfodol – ymchwil ac arloesi, cydweithio, seilwaith a chysylltedd

73. Gan adeiladu ar rai o'r egwyddorion a nodwyd gan dystion ym mhennod pedwar, clywsom awgrymiadau gan dystion hefyd ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer dulliau o ddatblygu economaidd rhanbarthol yn y dyfodol. Dywedodd tystion wrthym mai'r prif flaenoriaethau ar gyfer dulliau yn y dyfodol o bolisi rhanbarthol ddylai fod cymorth i gydweithio, arloesi, seilwaith a chysylltedd.

Ymchwil ac arloesi

74. Yn ei adroddiad, y gwnaethom ei ystyried fel rhan o'n hymchwiliad, edrychodd Geraint Talfan Davies o'r Sefydliad Materion Cymreig ar safle Cymru yn Ewrop o ran ymchwil a chydweithio. Mae ei adroddiad yn amlygu rhai o'r heriau a wynebir gan Gymru o ran symud i fyny'r tablau cynghrair ymchwil, cydweithio ar arloesi. Roedd adroddiad Mr Talfan Davies yn amlygu nifer o faterion gan gynnwys:

- bod y DU yn 20fed yn nhabl cynghrair y byd o wariant ymchwil a datblygu fel canran o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth;
- bod Cymru yn anghymesur o ddibynnol ar arian yr UE ar gyfer ymchwil ac mai dim ond 10 y cant o'r cyfanswm a ariannwyd gan y sector preifat (gyda phrifysgolion yn gyfrifol am y 90 y cant sy'n weddill); ac
- yng nghyd-destun ymchwil a arweinir gan brifysgol, bod y sylfaen ymchwil yng Nghymru yn is na gwledydd eraill y DU – yn y deg mlynedd hyd at 2014-15, cafodd Cymru tua 2 y cant o gyfanswm yr arian ymchwil (mewn cyferbyniad â 5 y cant o gyfran y boblogaeth).⁸⁰

75. Yn ei dystiolaeth, tynnodd yr Athro Kevin sylw at berfformiad Cymru yn gwneud cais llwyddiannus am arian ymchwil o gymharu â rhannau eraill y DU, yn arbennig yr Alban. Dywedodd wrthym fod angen i Gymru ganolbwyntio ar ragoriaeth er mwyn gwneud y gorau o arian ymchwil. Yn ôl yr Athro Morgan:

“Sometimes in Wales, you encounter an attitude—I’ve encountered it quite a lot, to tell you the truth—where people will say ‘We’re not getting our fair share of framework funds’ or ‘We’re not getting our fair share of Innovate UK.’ There’s no such thing as a fair share, because it’s not based on need, it’s based on excellence. I was asked to chair the smart specialisation strategy for Wales, and when we took evidence from Innovate UK, I pressed the representative and said ‘Why does Wales do so badly on Innovate UK funds compared to other parts of England and to Scotland?’ And he was rather coy in answering, and we pressed him, and he said, ‘Because the quality of your applications is very poor.’”⁸¹

76. Siaradodd Paul Byard am lefelau isel hanesyddol buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu yng Nghymru a phwysleisiodd yr angen i gyfateb rhethreg ar ail-gydbwysu'r economi gydag adnoddau. Dywedodd Mr Byard:

⁸⁰ Papur 1 – IWA Single Market of the Mind

⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 171 – 27 Chwefror 2017

“[...] we only spend, in Wales, about 1.2 per cent of the UK on R&D, so our ability and our rate of innovation in Wales is low and our ability to bring new products and services to the market is low. So, if you just take those two measures, if we then said, ‘By 2025, if we’re going to rebalance the economy, what do those numbers need to look like?’—you can then draw the timeline. So, we know what our current state is, we know what our future state is, we draw the timeline, we can do the gap analysis ourselves, and then determine what we need to do to get there and lay those numbers down. So, I would say that 1.2 per cent needs to be closer to 7 per cent. Now, the translation of that may mean that instead of spending X millions of pounds on R&D, we need to spend one-point-whatever billion it is. That’s where we should then focus on how we fund that activity and how to resource that, because that’s the only thing that’s going to get us to rebalance the economy and take us out of some of the many systemic issues that we have in Wales.”⁸²

77. Yn ei gyflwyniad, dywedodd yr OECD fod hyrwyddo arloesedd fel ffordd o hybu cynhyrchiant cwmnïau a'r sector cyhoeddus yn dod yn fwy pwysig ym maes polisi datblygu rhanbarthol. Aeth ymlaen i ddweud bod Scottish Enterprise yn enghraifft lwyddiannus o sefydliad a oedd wedi gweithio gyda busnesau i hyrwyddo cystadleurwydd.⁸³

Argymhelliad 14. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn pennu y bydd, yn ogystal â'r strategaethau sydd eisoes ar waith, yn gweithio gyda'r sector preifat i hybu gwariant ar ymchwil a datblygu yng Nghymru i sicrhau bod enillion arloesedd a chynhyrchiant yn ganolog i bolisi datblygu rhanbarthol ac economaidd yn y dyfodol.

Cydweithio

78. Dywedodd nifer o dystion wrthym y gellid cael gwell synergeddau os gellid gwella cydweithio rhwng llywodraeth, awdurdodau lleol, addysg bellach ac uwch, byrddau iechyd lleol; y sector preifat a'r trydydd sector. Dywedodd Paul Byard wrthym:

“we can actually do things differently if we work together in the true collaboration of Government, industry, academia, stakeholders. But we’re not doing that fully.”⁸⁴

79. Soniodd Iestyn Davies o Golegau Cymru am y gwelliant mewn cydweithio rhwng llywodraeth, addysg bellach ac uwch a'r sector preifat yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd Mr Davies wrthym:

“I think a consequence of where we’ve been on skills policy has led to that coming together, and that sense of being in—what’s that phrase—being in ‘co-competition’: being both competitive and co-operative at the same time. So, it’s trying to raise standards by working together. So, I think that has been a feature of the last five or six years in particular. Quality has increased in terms of outcomes and in terms of inspection reports. I think we will see a continued

⁸² Cofnod y Trafodion, [paragraff 273](#) – 6 Mawrth 2017

⁸³ [03 Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr OECD ar bolisi rhanbarthol yng Nghymru](#)

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, [paragraff 296](#) – 13 Mawrth 2017

increase in the quality provided by FE organisations and, indeed, a willingness to work in partnership with the universities, some of which are represented here today, to offer a higher level set of qualifications and skills.”⁸⁵

80. Dadleuodd yr Athro Kevin Morgan fod polisi addysg yng Nghymru wedi'i datgysylltu'n llwyr o bolisi arloesedd a datblygu. Yn ei dystiolaeth, cyferbynnodd yr Athro Morgan y sefyllfa yng Nghymru â Lloegr a'r Alban:

“For example, England has a higher education innovation fund, Scotland has its knowledge transfer fund and the Higher Education Funding Council for Wales has cut entirely everything—zero. We are the only nation in the United Kingdom without an innovation and engagement budget to promote the collaboration of universities and business and Government, which lies at the heart of the Innovation Wales strategy for smart specialisation. So, you’ve got an economic development strategy over here that is being completely undermined by an education policy over here.”⁸⁶

Argymhelliad 15. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb i'r adroddiad sut y bydd yn datblygu strategaeth arloesi ac ymgysylltu yng Nghymru ar ôl i'r DU adael yr UE.

Buddsoddi mewn seilwaith

81. Gwnaeth y rhai a roddodd dystiolaeth i ni'n rheolaidd amlygu'r rôl y mae cyllid Ewropeaidd presennol yn ei chwarae wrth gefnogi buddsoddiad seilwaith yng Nghymru. Dywedodd tystion wrthym er y bu newid mewn blynyddoedd diweddar i gefnogi buddsoddiad mewn sgiliau a chyfalaf dynol, bydd heriau yn ymwneud â seilwaith a chysylltedd yn parhau i fod yn bwysig.⁸⁷

82. Nododd Tim Peppin o CLILC fod angen buddsoddiad seilwaith o hyd yng Nghymru. Disgrifiodd Mr Peppin rai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â strategaeth sy'n canolbwyntio'n unig ar sgiliau, er anfantais i seilwaith a chysylltedd. Dywedodd wrthym:

“I think there’s a danger that if you just skill people up, then you skill people up to move out, and in the communities that are left, you then have bigger problems, and the cost of service delivery per head is higher, so it puts extra strain on the council resource. I think what the strategies are trying to do is keep communities alive, keep them supported, see new growth in those communities, new housing developments in areas by better infrastructure, so that the local shops, the local communities can actually sustain themselves. In terms of a long-term sustainable development plan, I think, at the moment, there is still a need for infrastructure investment to complement, as you say, the hugely important investment in human skills.”⁸⁸

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, **paragraff 81** – 13 Mawrth 2017

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, **paragraff 184** – 27 Chwefror 2017

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, **paragraff 24** – 27 Chwefror 2017; Cofnod y Trafodion, **paragraff 81** – 13 Mawrth 2017; Cofnod y Trafodion, **paragraffau 27 – 29** – 20 Mawrth 2017

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, **paragraff 121** – 6 Mawrth 2017

83. Dywedodd Paul Byard o'r EEF – Sefydliad y Gwneuthurwyr wrthym fod gadael yr UE yn rhoi cyfle i ni edrych o'r newydd ar reolaeth cymorth gwladwriaethol. Aeth ymlaen i ddweud bod angen gwell cysylltiadau rhwng gwariant seilwaith, cyflogaeth a sgiliau.⁸⁹

84. Yn ei phapur, amlygodd Llywodraeth Cymru seilwaith fel elfen allweddol o bolisi rhanbarthol. Fodd bynnag, roedd y papur yn dadlau y byddai angen partneriaeth gyfartal rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU "i sicrhau bod buddsoddiadau'r DU yn gweithio gyda'r graen mewn perthynas â pholisi rhanbarthol, yn hytrach nag yn groes i'r graen, ac i gydnabod y cyd-destun polisi Cymreig unigryw".⁹⁰

Caffael a chymorth gwladwriaethol

85. Soniodd sawl tyst am reolau cymorth gwladwriaethol a dyfodol caffael. Dywedodd yr Athro Bell oherwydd rheolau caeth yr UE ar gymorth gwladwriaethol mae'n anodd canolbwyntio cymorth ariannol ar fentrau penodol.⁹¹

86. Disgrifiodd yr OECD yn ei bapur fod arfer da ym maes caffael yn rhan annatod o fuddsoddiadau polisi rhanbarthol llwyddiannus.⁹² Roedd yr Athro Richard Davies o Brifysgolion Cymru yn credu y gellid gwneud mwy – yn enwedig ar ôl i'r DU adael yr UE – i wneud y gorau o gaffael a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol mewn economïau rhanbarthol.⁹³

87. Amlygodd Mr Peppin yr angen am gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar sut y dylai rheolau cymorth gwladwriaethol edrych ar ôl gadael yr UE. Dywedodd wrthym:

“There are some things that are non-devolved, like competition policy, state aid, procurement, industrial strategy, where they will have a major impact on regional prospects, and therefore we've got to work with the UK Government—Welsh Government and local authorities—to ensure that what those UK-wide framework look like work for Wales, that they're not developed and then handed down. So, I think there's a role in terms of having an input into the way that those things are developed in the first place.”⁹⁴

88. Pwysleisiodd Mr Byard botensial caffael fel gyrrwr ar gyfer twf rhanbarthol hefyd. Dywedodd, ar hyn o bryd, fod tua 54 y cant o gaffael yn cael ei ennill gan fusnesau yng Nghymru. Byddai alinio caffael â strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu economaidd rhanbarthol – gan gynnwys cysoni ar draws ardaloedd awdurdod lleol – yn allweddol.⁹⁵

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 17. Rydym yn croesawu'r cyfle i edrych o'r newydd ar reolau cymorth gwladwriaethol a chaffael mewn ffordd sy'n helpu i gefnogi twf a arweinir gan y sector preifat.

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 253](#) – 6 Mawrth 2017

⁹⁰ [Papur 1 – Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar Bolisi Rhanbarthol yng Nghymru](#)

⁹¹ Cofnod y Trafodion, [paragraff 24](#) – 27 Chwefror 2017

⁹² [03 Tystiolaeth ysgrifenedig gan yr OECD ar bolisi rhanbarthol yng Nghymru](#)

⁹³ Cofnod y Trafodion, [paragraff 78](#) – 13 Mawrth 2017

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, [paragraff 66](#) – 6 Mawrth 2017

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, [paragraffau 300 a 306](#) – 6 Mawrth 2017

Argymhelliad 16. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, i nodi'r uchelgeisiau a ffefrir ganddi ar gyfer rheolau cymorth gwladwriaethol a chaffael ar ôl i'r DU adael yr UE.

Cysylltedd

89. Dywedodd yr Athro Morgan wrthym am y pwysigrwydd o edrych ar lefydd o ran eu rhyngddibyniaeth a chysylltedd yn hytrach na llefydd wedi'u ffinio sydd angen cael eu cyfran o'r pwrs cyhoeddus. Pwysleisiodd hefyd y pwysigrwydd o gynnwys ardaloedd mwy gwledig fel y canolbarth a Blaenau'r Cymoedd mewn dulliau yn y dyfodol.⁹⁶

90. Amlygodd Colin Riordan o Brifysgolion Cymru fod angen i gysylltedd gofleidio trafndiaeth a chysylltedd digidol. Dywedodd wrthym fod gan brifysgolion rôl bwysig i'w chwarae o ran cyfrannu at yr ecosystem ar gyfer arloesedd ond rhybuddiodd fod cyllid Ewropeaidd yn ffynhonnell allweddol ar hyn o bryd o gyllid cyfalaf ar gyfer ein prifysgolion. Dywedodd yr Athro Riordan:

“[...] either you go out and borrow the money, or there's Welsh European Funding Office funding, and that's your capital—or whatever you've got in reserves. And that's a hugely limiting factor in terms of being able to be competitive institutions for Wales. So, I think we've got to think about that part as well. If we as universities are starved—I know it sounds like special pleading, but it is just a fact that if we are starved of capital that will put us at a disadvantage and it'll be more difficult for us to contribute to this agenda in the way that [...] we should be doing.”⁹⁷

Safbwynt y Pwyllgor

Casgliad 18. Rydym o'r farn y dylai dulliau yn y dyfodol at bolisi rhanbarthol yng Nghymru gynnwys ymchwil, arloesedd, cydweithio, caffael a seilwaith a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid, a chynnwys y sector preifat a'r trydydd sector lle y bo'n bosibl.

Argymhelliad 17. Rydym yn argymhell y dylai polisi rhanbarthol yn y dyfodol gynnwys:

- cefnogaeth barhaus ar gyfer addysg, sgiliau a chyfalaf dynol;
- cefnogaeth barhaus ar gyfer buddsoddiad mewn seilwaith ffisegol a digidol;
- gwell cydweithio rhwng awdurdodau lleol; addysg bellach ac uwch; byrddau iechyd lleol; y sector preifat a'r trydydd sector;
- ymgysylltiad parhaus â'r sector parhaus lle y bo'n bosibl; a
- dull mwy strategol o wneud y gorau o botensial caffael wrth ysgogi datblygiad economaidd.

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, **paragraff 191** – 27 Chwefror 2017

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, **paragraff 36** – 13 Mawrth 2017

Atodiad A – Tystion

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth i'r Pwyllgor.

27 Chwefror 2017	
Yr Athro Sascha Becker	Prifysgol Warwick
Yr Athro David Bell	Prifysgol Stirling
Dr Jayne Woolford	Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Kevin Morgan	Prifysgol Caerdydd

6 Mawrth 2017	
Cyngh. Phil Bale	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tim Peppin	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Phil Fiander	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Janine Downing	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Richard Morgan	Plant y Cymoedd
Paul Byard	EEF Cymru – Sefydliad y Gweithgynhyrchwyr

13 Mawrth 2017	
Yr Athro Colin Riordan	Prifysgolion Cymru
Yr Athro Richard Davies	Prifysgolion Cymru
Iestyn Davies	Colegau Cymru
Ann Beynon	Bwrdd Pontio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Ben Cottam	Ffederasiwn y Busnesau Bach
Grant Santos	Educ8

20 Mawrth 2017	
Mark Drakeford AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Damien O'Brien	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Rob Halford	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

15 Mai 2017	
Peter Slater	Cynghrair Cymunedau Diwydiannol
Michael Koch-Larsen	Rhanbarthau Denmarc
Asger Andreassen	Rhanbarthau Denmarc

Gellir gweld trawsgrifiad o'r cyfarfodydd yn

<http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s63123/15%20May%202017.html?CT=2>

Mae tystiolaeth ysgrifenedig ar gael yn:

[http://senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=261&RPID=1508620510&cp=](http://senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=261&RPID=1508620510&cp=yes)
[yes](http://senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=261&RPID=1508620510&cp=yes)